Newidiadau i'r manylebau Gwyddor Feddygol (Medi 2019)

Yn sgil gwaith safoni ar dermau TAG Bioleg, mae rhai newidiadau wedi'u gwneud i fanylebau/rhestrau termau er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb ar draws y pynciau. Bydd CBAC yn sicrhau na fydd unrhyw newidiadau/termau newydd yn achosi dryswch mewn papurau arholiad, a bydd yr hen dermau yn dal i gael eu derbyn mewn atebion/cynlluniau marcio.

| Term Saesneg cyfatebol | Term cyn ei newid | **Term newydd / cywir** | Rheswm dros y newid |
|---|---|---|---|
| agent(s) | asiant(au) | **cyfrwng / cyfryngau** | cywiriad (dim ond yng nghyd-destun pobl mae 'asiant' yn gywir, 'cyfrwng' sy'n briodol mewn cyd-destun gwyddonol) |
| calibration curve | cromlin calibrad | **cromlin raddnodi** | cywiriad |
| central nervous sytem | system nerfol ganolog | **prif system nerfol** | cywiriad |
| code of practice | cod ymddygiad | **cod ymarfer** | cywiriad |
| endocrine system | system endocrin | **system endocrinaidd** | er mwyn bod yn gyson â TAG Bioleg |
| equipment | offer | **cyfarpar** | er mwyn bod yn gyson â phynciau gwyddonol eraill – 'cyfarpar' sy'n cael ei ddefnyddio yn y papurau arholiad hefyd |
| gender | rhyw | **rhywedd** | angen gwahaniaethu rhwng 'gender' a 'sex' |
| genetic<br>genetic basis<br>genetic diseases<br>genetic mutations | genetig<br>sylfaen enetig<br>clefydau genetig<br>mwtaniadau genetig | **genynnol**<br>**sylfaen enynnol**<br>**clefydau genynnol**<br>**mwtaniadau genynnol** | Er mwyn datrys yr anghysondeb rhwng 'genetig' a 'genynnol', mae Canolfan Bedwyr wedi penderfynu mai 'genynnol' sy'n gweithio orau yn gyffredinol ond mae eithriadau, er enghraifft:<br>*genetic engineering* **-** peirianneg genynnau<br>*genetic corn* - corn genetig<br>*genetic seeds* - hadau genetig<br>*genetic nature* - natur genynnau<br>*genetic movement* - symudiad genynnau<br>*genetic counselling* - cynghori geneteg |
| musculoskeletal | cyhyrysgerbydol | **cyhyrsgerbydol** | er mwyn bod yn gyson â'r patrwm yn TAG Bioleg h.y. sgerbwd/sgerbydol ac nid ysgerbwd/ysgerbydol |
| physical activity | gweithgaredd corfforol | **gweithgarwch corfforol** | cywiriad |
| proliferation | lledaeniad | **lluosogiad** | cywiriad i fod yn gyson â thermau TAG Bioleg |
| pulse rate | cyfradd curiad y galon | **cyfradd pwls** | angen gwahaniaethu rhwng 'heart rate' a 'pulse rate' |
| radiation therapy | therapi ymbelydredd | **therapi pelydriad** | cywiriad |
| reasoning | ymresymu | **rhesymu** | er mwyn bod yn gyson ar draws y pynciau gwyddonol, ac yn gyson â'r Termiadur Addysg |
| report | adrodd yn ôl | **adrodd** | cywiriad i fod yn gyson â phynciau eraill |
| therapeutic interventions | ymyraethau therapiwtig | **ymyriadau therapiwtig** | cywiriad |
| triglycerids | triglyseridau | **triglyceridau** | penderfyniad Canolfan Bedwyr |
| vena cava | fena cafa | **vena cava** | penderfyniad Canolfan Bedwyr |
| viral | firaol | **firol** | penderfyniad Canolfan Bedwyr |